O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 941 (Cy. 185)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya a Dileu Cyfyngiadau) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Awst 2018* |
| *Yn dod i rym* | *24 Awst 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A40, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1), 84(1)(a), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya a Dileu Cyfyngiadau) 2018 a daw i rym ar 24 Awst 2018.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(2)**;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr

**(1)** 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraffau 59(3) ac 60(2) o Atodlen 8 iddi. Amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(2)** Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**Dileu Cyfyngiadau**

**5.** Bydd y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

**Dirymiadau**

**6.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Osgoi Hwlffordd, Dyfed) (Dileu Cyfyngiadau) 1994(**3**) a Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Withybush, Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya) 2006(**4**) wedi eu dirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

---

**(3)** O.S. 1994/1745.
**(4)** O.S. 2006/1740 (Cy. 180).

Dyddiedig 21 Awst 2018

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLENNI**
**Darnau o gefnffordd yr A40 yn Hwlffordd, Sir Benfro**

**ATODLEN 1**
**Terfyn Cyflymder 40 mya**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Llwynhelyg hyd at bwynt 46 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Ffordd Aberteifi, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol Cylchfan Llwynhelyg a Chylchfan Ffordd Aberteifi.

**ATODLEN 2**
**Terfyn Cyflymder 50 mya**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Llwynhelyg hyd at bwynt 646 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

**ATODLEN 3**
**Dileu Cyfyngiadau**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 125 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Scotchwell hyd at bwynt 220 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y gylchfan honno.